

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Casnewydd

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gasnewydd i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Casnewydd fodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Casnewydd 7 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Casnewydd wedi parhau i weld rhai gwelliannau yn ei berfformiad yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, ond o sail ddefnyddwyr isel ar y cyfan. Mae darparu hyfforddiant yn parhau i fod yn faes cryf, gyda'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol ymysg yr uchaf y pen yng Nghymru. Mae lefel adnoddau isel y gwasanaeth yn effeithio ar agweddau eraill ar berfformiad y gwasanaeth fodd bynnag, a rhaid i hyn aros yn faes sy'n peri pryder, gyda Chasnewydd yn cofnodi'r lefelau staffio isaf a'r gwariant refeniw isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae cynllunio effeithiol a rheolaeth dda yn helpu i liniaru'r cyfyngiadau ar adnoddau i ryw raddau, ond ceir effaith anochel ar gapasiti o ran yr oriau agor, sy'n effeithio ar berfformiad yn erbyn dangosyddion defnydd, lle gwelir y nifer isaf o ymwelwyr yng Nghymru o hyd, er gwaethaf y gwelliannau a wnaed. Mae'n bosibl y bydd rhoi model yr Hyb Cymdogaeth newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ar waith yn cael effaith gadarnhaol yma, wrth i'r awdurdod ymdrechu i wella mynediad at amrywiaeth o wasanaethau.

- Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu cymorth llawn ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles; mae'r gwasanaeth bellach wedi cael ei achredu'n sefydliad Ymwybyddiaeth Awtistiaeth.
- Mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant (ffurfiol ac anffurfiol) wedi gwella ymhellach yn 2018/19; roedd 100% o'r rhai a arolygwyd yn teimlo bod yr hyfforddiant hwn wedi eu helpu i gyflawni eu nodau.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau wedi gwella'n sylweddol yn 2018/19, a chofnodwyd cynnydd hefyd o ran nifer yr ymwelwyr ffisegol a nifer y llyfrau a fenthycir. Erys y defnydd a wneir o lyfrgelloedd islaw'r lefel ganolrifol ar y cyfan, sy'n cyfateb i'r nifer isaf o ymweliadau y pen o'r boblogaeth o hyd yng Nghymru.
- Cafodd y gyllideb ar gyfer deunyddiau ei thanwario yn 2018/19, a oedd yn adlewyrchu'r cyfnod pontio i'r system rheoli llyfrgelloedd i Gymru gyfan. Er bod y gwasanaeth yn methu â chyflawni'r targedau caffael cyffredinol o hyd, mae'n parhau i fodloni'r gofynion o ran adnoddau Cymraeg.
- Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol yn aros yn ddigyfnewid, gyda'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru o ran hyn unwaith eto, ond nodir bod y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cyfarpar newydd yn 2018/19, ac nad yw'r lefelau defnydd yn awgrymu bod angen mwy o ddarpariaeth.

- Mae staffio, gan gynnwys nifer y staff proffesiynol, wedi parhau ar lefel 2017/18, ond mae cyfanswm y staff y pen o'r boblogaeth yn cyfateb i'r lefel isaf yng Nghymru, ac nid yw'r naill darged staffio na'r llall wedi'u cyflawni. Mae'r oriau agor dipyn yn is na'r lefel ganolrifol hefyd, gyda dim ond un awdurdod arall yn cynnig darpariaeth is y pen.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu o gymharu â 2017/18, ond mae gwariant y pen unwaith eto yn cyfateb i'r lefel isaf yng Nghymru.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Casnewydd yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, gyda dull effeithiol o ddarparu gwasanaethau ym mhob maes. Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd da o ddata economaidd-gymdeithasol lleol, ac adborth uniongyrchol gan ddefnyddwyr, wrth gynllunio gwasanaethau, ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr mewnol a phartneriaid allanol. Ymunodd y gwasanaeth â'r gwasanaeth rheoli llyfrgelloedd i Gymru gyfan ym mis Chwefror 2019 ac mae'n awyddus i gefnogi'r defnydd a wneir ohoni fel adnodd ar gyfer mwy o gydweithio ymhlith awdurdodau llyfrgell Cymru.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Casnewydd yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn

DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	✓	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Bu newid bach ym mherfformiad Casnewydd yn 2018/19, gyda'r ddau ddangosydd ar gyfer DA 10 yn cael eu cyflawni bellach.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd yr awdurdod ei arolygon o ddefnyddwyr (oedolion a phlant) ym mis Mawrth 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	92%	8/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	85%	12/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	100%	=1/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Casnewydd dair astudiaeth achos o'r fath:

- MIND Casnewydd – buddiannau gweithdai barddoniaeth y Gair Llafar i bobl ifanc o elusen iechyd meddwl leol. Bu hwn yn gyfle pwerus ac ysbrydoledig i'r rhai a gymerodd ran sôn am iechyd meddwl, ac maent bellach yn ddigon hyderus i wneud defnydd ehangach o'r llyfrgell a'i hadnoddau yn eu gwaith ymgyrchu. Mae gwaith a grëwyd drwy'r gweithdai wedi cael ei gyhoeddi a'i berfformio yn y Senedd ac yn Sain Ffagan.
- Gwrthsefyll Allgáu Cymdeithasol – pwysigrwydd y llyfrgell leol i un wraig hŷn, fel man cymdeithasu, gan gefnogi ei hoffter o ddarllen, ac fel hwb ar gyfer gweithgareddau'r pentref.
- Sgiliau Digidol a Hunanhyder – effaith mynychu sesiynau digidol yn y llyfrgell ar un defnyddiwr â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n gallu defnyddio cyfrifiadur yn hyderus bellach, ac ar ôl mynychu'r sesiynau mae'n fwy hunanddibynnol a chadarnhaol am yr hyn y gall ei wneud a'i gyflawni.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Casnewydd ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	65%	11/15	24%	82%	96%	61%
c) iechyd a lles	49%	13/15	33%	62%	94%	38%
d) lle diogel a chroesawgar	96%	=11/15	90%	97%	100%	95%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=6/14	81%	91%	98%	89%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	97%	11/14	93%	99%	100%	95%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	79%	9/13	65%	91%	95%	76%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	95%	11/14	93%	97%	99%	92%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.2	8/13	8.5	9.3	9.5	9.4
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	106	3/22	13	30	208	82
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	137	=14/22	15	199	433	113
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	291	12/22	91	295	689	211

DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	2,596	22/22	2,596	3,969	7,170*	2,501
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	672	14/22	345	885	2,205	777
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	119	16/22	58	150	251	128
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²						
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	5	22/22	5	10	14	5
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	29%	9/22	14%	25%	63%	29%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	33	10/21	3	30	214	47
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	2,391	5/21	90	1,477	9,806	1,518
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£7,181	22/22	£7,181	£12,145	£19,449	£7,047
b) % ar staff	58%	14/22	47%	62%	78%	57%
% ar adnoddau gwybodaeth	19%	4/22	8%	13%	21%	21%
% ar offer ac adeiladau	16%	2/22	0.4%	4%	25%	14%
% ar gostau gweithredol eraill	7%	20/22	0.3%	16%	37%	7%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£1,646	8/22	£0	£467	£8,829	£0
DA 15 – Cost net am bob ymweliad						
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.05%	18/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.03%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	dd/b		0.00%	0.28%	7.99%	dd/b

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Casnewydd ei ddau arolwg o ddefnyddwyr (oedolion a phlant) ym mis Mawrth 2018, gan fodloni gofynion y chweched fframwaith, a defnyddiwyd tystiolaeth o'r arolygon i sicrhau buddsoddiad mewn cyfarpar TG newydd ym mhob safle yn 2018/19. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles, ac mae'r gwasanaeth bellach wedi cael ei achredu'n sefydliad Ymwybyddiaeth Awstistiaeth. Mae'r niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi parhau i gynyddu ac erys ymhlith y lefelau uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru; dywedodd 100% o'r rhai a arolygwyd yn 2018/19 fod yr hyfforddiant hwn wedi eu helpu i gyflawni eu nodau. Mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi parhau i wella dros y cyfnod.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Casnewydd yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac mae gweithgareddau / digwyddiadau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig yn cael eu darparu ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cryn ymdrech i gynyddu ei raglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn 2018/19, ac mae'r niferoedd sy'n mynychu wedi cynyddu o ganlyniad, gyda'r perfformiad yn agos iawn i'r lefel ganolrifol bellach. Mae nifer yr ymweliadau ffisegol hefyd wedi cynyddu ychydig ers 2017/18 ond erys ar y lefel isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae nifer y llyfrau i oedolion a phlant a fenthycir wedi cynyddu, a hefyd nifer y lawrlwythiadau electronig (yn debyg i'r rhan fwyaf o awdurdodau llyfrgell eraill). Fodd bynnag, mae'r cyfnod pontio i'r system rheoli llyfrgelloedd i Gymru gyfan wedi effeithio ar rith-ymweliadau, ac mae aelodaeth llyfrgell gofnodedig hefyd wedi lleihau ar ôl ymarfer glanhau llawn ar y gronfa ddata aelodaeth.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae'r gwariant ar ddeunyddiau wedi parhau i ostwng yn 2018/19, ond nodir bod hyn yn adlewyrchu effaith y newid i'r system rheoli llyfrgelloedd i Gymru gyfan, pan roddwyd y gorau i gaffael eitemau am gyfnod o chwe wythnos, gan arwain at danwario'r gyllideb. Gwnaed arbedion effeithlonrwydd hefyd mewn gwariant ar adnoddau electronig, gyda'r gwasanaeth yn ymuno â chynllun Borrowbox i Gymru gyfan. Cynyddodd nifer yr eitemau ffisegol a gaffaelwyd dros y cyfnod mewn gwirionedd, ond erys cyfanswm yr eitemau a gaffaelwyd islaw lefelau'r targed ar gyfer DA 9. Mae'r buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg wedi gostwng hefyd, ond fel cyfran parheir i gyflawni'r targed o ran hyn, ac mae cywiriad yn ffigur y boblogaeth gysylltiedig yn golygu bod y gwasanaeth hefyd yn cyflawni'r targed gwario ar gyfer DA 10. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau, ac mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol yn aros yn ddigyfnewid. Er bod y ddarpariaeth o ran hyn yn dal ar y lefel isaf yng Nghymru, mae'r gwasanaeth yn credu ei bod yn ddigon ar gyfer y defnydd presennol, sydd wedi parhau ar yr un lefelau â 2017/18 (29%).

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae staffio wedi parhau ar lefelau 2017/18, gyda nifer y staff proffesiynol yn aros yn ddigyfnewid, ac mae cyfanswm y staff yn cyfateb i'r lefel isaf y pen o'r boblogaeth o hyd yng Nghymru; nid yw'r targedau yn y naill achos na'r llall wedi cael eu cyflawni. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran hyfforddiant a datblygiad y staff, a hynny ar lefel well. Mae nifer y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth wedi lleihau yn 2018/19, ond mae nifer yr oriau a gyfrannwyd wedi cynyddu, gyda thua 33 o wirfoddolwyr yn rhoi dros 72 awr yr un i'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu unwaith eto yn 2018/19, ond mae'r buddsoddiad mewn gwasanaethau llyfrgell ar gyfartaledd ar y lefel isaf o hyd yng Nghymru. Mae'r oriau agor yn aros yn ddigyfnewid ac mae'r perfformiad o ran hyn hefyd dipyn yn is na'r lefel ganolrifol.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae

Casnewydd yn parhau i nodi'r ffordd y mae'n cysoni ei Strategaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2017-2020 a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio at nifer o weithgareddau a gynigir o hyd sy'n cefnogi darllen a llythrennedd, cynhwysiant digidol, ac iechyd a lles. Ymhlith y datblygiadau penodol yn 2018/19 mae mabwysiadu a hyrwyddo adnodd hyfforddiant ar-lein dwyieithog 'Learn My Way', achrediad fel sefydliad Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, a chydweithio, a pharhau i gydweithio'n lleol i roi'r System Rheoli Llyfrgelloedd i Gymru gyfan ar waith.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Casnewydd yn nodi y bydd 2019/20 yn flwyddyn o newid sylweddol wrth iddo roi prosiect Hybiau Cymdogaeth ar waith. Bydd model rheoli traws-sector newydd yn cael ei gyflwyno, a fydd yn gwella mynediad at nifer o wasanaethau i drigolion. Bydd y model newydd yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r gwasanaethau llyfrgell weithio'n fwy gweithredol yn eu cymunedau lleol, a chyfrannu at dimau amlasiantaethol. Bydd goruchwyliaeth broffesiynol o'r gwasanaeth llyfrgell yn parhau, gan y bydd y rheolwr gweithredol presennol yn cadw'r cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol y gwasanaeth, ac nid oes unrhyw gynlluniau i leihau nifer y manau gwasanaeth mewn llyfrgelloedd o dan y trefniadau newydd.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Casnewydd wedi parhau i weld rhai gwelliannau yn ei berfformiad yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, ond o sail ddefnyddwyr isel ar y cyfan. Mae darparu hyfforddiant yn parhau i fod yn faes cryf, gyda'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol ymysg yr uchaf y pen yng Nghymru. Mae lefel adnoddau isel y gwasanaeth yn effeithio ar agweddau eraill ar berfformiad y gwasanaeth fodd bynnag, a rhaid i hyn aros yn faes sy'n peri pryder, gyda Chasnewydd yn cofnodi'r lefelau staffio isaf a'r gwariant refeniw isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae cynllunio effeithiol a rheolaeth dda yn helpu i liniaru'r cyfyngiadau ar adnoddau i ryw raddau, ond ceir effaith anochel ar gapasiti o ran yr oriau agor, sy'n effeithio ar berfformiad yn erbyn dangosyddion defnydd, lle gwelir y nifer isaf o ymwelwyr yng Nghymru o hyd, er gwaethaf y gwelliannau a wnaed. Mae'n bosibl y bydd rhoi model yr Hyb Cymdogaeth newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ar waith yn cael effaith gadarnhaol yma, wrth i'r awdurdod ymdrechu i wella mynediad at amrywiaeth o wasanaethau.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.